

Theatr Clwyd

Cynorthwy-ydd Blaen Tŷ
Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug

Contract Tymor Penodol
22 Awr
Graddfa TC07 - SCP 1
(Cyflog o £17,364 pro-rata)

Mae'r Adran Gweithrediadau'n gyfrifol am swyddogaethau logisteg yr adeilad. Yn rhan greiddiol iddi mae hybu a chynnal profiad rhagorol i'r gynulleidfa a sicrhau bod Theatr Clwyd yn amgylchedd croesawus a diogel i'r cyhoedd, artistiaid sy'n ymweld, a staff.

Rydym yn chwilio am unigolion i ymuno â'n tîm gweithrediadau fel Cynorthwywr Blaen Tŷ. Mae'r rôl yn swydd rheng flaen yn gweithio ar draws pob maes yn ein manau Bwyd, Diod ac Adwerthu.

Mae Theatr Clwyd wedi bod yn theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw Cymru ers 1976 ac mae'r Cyfarwyddwr Artistig Tamara Harvey a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Liam Evans-Ford yn arwain y theatr drwy gyfnod o newid cyffrous, gan adeiladu ar ragoriaeth a balchder y gorffennol i greu canolfan ddeinamig a chreadigol ar gyfer y celfyddydau yn y dyfodol.

Mae'r Adran Gweithrediadau'n gyfrifol am swyddogaethau logisteg yr adeilad. Yn rhan greiddiol iddi mae hybu a chynnal profiad rhagorol i'r gynulleidfa a sicrhau bod Theatr Clwyd yn amgylchedd croesawus a diogel i'r cyhoedd, artistiaid sy'n ymweld, a staff. Dylai ymgeiswyr fod â phrofiad blaenorol o weithio mewn rôl sydd â'i ffocws ar y cwsmer mewn amgylchedd tebyg, a bod yn barod i weithio oriau hyblyg, gan gynnwys gyda'r nos, dros y penwythnos ac ar ylliau banc.

Am drafodaeth anffurfiol, cysylltwch ag:

Enw: Laura Gray

Teitl Swydd: Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Ffôn: 01352 701861

Rydym yn cydnabod bod gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn bwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac rydym wedi ymrwmo i gynyddu nifer ein cyflogeion dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Hefyd byddwn yn cefnogi cyflogeion newydd a phresennol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella/datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg.

Bydd trefniadau rhan amser, rhannu swydd a gweithio hyblyg yn cael eu hystyried.